**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 4**

Dawn Bowden AC

Cadeirydd, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

24 Ionawr 2020

Annwyl Dawn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 mewn cysylltiad â goblygiadau posibl unrhyw newid ym maint y Cynulliad i bwyllgorau'r Cynulliad. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid eich llythyr yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2020.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod un maes o'i waith a allai fod wedi'i wella gan gynnydd o ran capasiti yn ymwneud â'r datganoli cyllidol sydd wedi digwydd yn ystod y Pumed Cynulliad.

Mae'r newidiadau cyllidol yng Nghymru o bwysigrwydd cyfansoddiadol, ac mae'r effaith ar refeniw Llywodraeth Cymru o ganlyniad iddynt wedi newid y ffordd y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn gweithio. Rhaid cydbwyso gallu'r Pwyllgor i ystyried datblygiadau cyllidol â phwysau'r cylchoedd cyllideb, â goruchwyliaeth y Pwyllgor o waith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ac â chraffu ar oblygiadau ariannol deddfwriaeth.

Mae llwyth gwaith mawr y Pwyllgor Cyllid, ynghyd â'r datblygiadau cyllidol newydd yn amlwg yn effeithio ar y capasiti a'r amser sydd ar gael i'r Aelodau ddeall y pwerau newydd yn llawn ac, yn ei dro, ar graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o Aelodau'n eistedd ar sawl pwyllgor, sydd eto'n effeithio ar eu gallu i wneud gwaith cefndir cyn sesiynau pwyllgor.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid